Office for Nuclear Regulation

Trefniadau Argyfwng

Cymeradwyaeth i Gynllun Argyfwng diwygiedig Safle Trawsfynydd – Rhifyn 12

Adroddiad Asesiad Prosiect ONR-DFW-PAR-15-009
Adolygiad 0
9 Rhagfyr 2015

© Y Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2015
Os ydych yn dymuno ailddefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.onr.org.uk/copyright am fanylion.
Cyhoeddwyd 04/16

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan yr ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae ei gopïo neu ei argraffu yn gwneud y ddogfen hon yn un na ellir ei rheoli.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Cymeradwyaeth i Gynllun Argyfwng diwygiedig Safle Trawsfynydd

Cais am Ganiatâd

Mae Magnox Ltd (y trwyddedau) wedi ysgrifennu at y Swyddfa Dros Reoli Niwclear (ONR) yn gofyn am gymeradwyaeth i'w newidiadau arfaethedig i gynllun argyfwng safle Trawsfynydd.

Cefndir

Yn flaenorol roedd y trwyddedai wedi arddangos i foddhad yr ONR nad oedd argyfwng ymbelydredd fel y diffiniwyd gan y Rheoliadau Parodrwydd mewn Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus (REPPIR) bellach yn rhesymol ragweladwy. O ganlyniad, mae'r trwyddedai yn bwriadu adolygu ei gynllun argyfwng presennol i ddiddymu'r gofyniad cyfredol a'r gallu i ddelio gydag argyfwng niwclear oddi ar y safle.

Fel sy'n ofynnol gan eu trefniadau eu hunain, mae'r trwyddedai wedi ysgrifennu at yr ONR i ofyn am gymeradwyaeth i'w newidiadau arfaethedig.

Gwaith asesu ac archwilio a gyflawnwyd gan yr ONR wrth ystyried y cais hwn

Rydw i wedi asesu'r gwahaniaethu rhwng y cynllun newydd arfaethedig a'r cynllun cymeradwy presennol. Y prif newid i'r cynllun argyfwng yw diddymu'r gallu i ddelio gydag argyfwng niwclear oddi ar y safle. Ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau i drefniadau cyfredol y trwyddedai ar gyfer digwyddiadau niwclear ar y safle.

Rydw i wedi cadarnhau bod cynigion y trwyddedai yn bodloni gofynion canllaw'r ONR.

Rwyf wedi ystyried perfformiad y trwyddedai yn ei ymarfer Lefel 1 mwyaf diweddar, yr ystyriodd i'r ONR fod yn arddangosiad digonol o drefniadau'r trwyddedai.

Materion yn codi o waith yr ONR

Nid oes unrhyw faterion yn codi o'r adroddiad asesiad prosiect hwn.

Casgliadau

Rwy'n fodlon bod y r cynllun argyfwng diwygiedig yn cyflwyno un newid materion yn unig i'r trefniadau presennol, sef diddymu'r gallu i ddelio gydag argyfwng niwclear oddi ar y safle. Gellir cyfiawnhau'r adolygiad i'r cynllun argyfwng gan fod y trwyddedai wedi arddangos i foddhad yr ONR yn flaenorol nad yw argyfwng niwclear bellach yn rhesymol ragweladwy.

Dangosodd y trwyddedai yn llwyddiannus i'r ONR ym Mai 2015 yr adran berthnasol o'r trefniadau presennol yn ymwneud â digwyddiadau niwclear ar y safle.

Yn olaf, rwy'n ystyried bod y cynllun argyfwng arfaethedig yn darparu trosolwg addas o drefniadau'r trwyddedai yn eu cyfanrwydd ac yn ddogfen ddefnyddiol.

Argymhelliad

Rwy'n argymell y dylid cyhoeddi offeryn trwyddedu rhif 527 ar gyfer safle Trawsfynydd Magnox Ltd i gymeradwyo'r cynllun argyfwng diwygiedig, ac felly'n diddymu'r gymeradwyaeth i'r cynllun argyfwng cyfredol.

RHESTR BYRFODDAU

ALARP	Mor isel ag sy'n rhesymol bosibl
BSL	Lefel Diogelwch Sylfaenol (mewn SAP)
BSO	Amcan Diogelwch Sylfaenol (mewn SAP)
CNS	Diogelwch Niwclear Sifil (ONR)
EPGMS	System Monitro Gama Perimedr Argyfwng
HOW2	System Rheoli Busnes (Y Swyddfa dros Reoli Niwclear)
HSE	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
IAEA	Yr Asiantaeth Ynni Atomig Rhyngwladol
NDA	Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
ONR	Y Swyddfa dros Reoli Niwclear
PCER	Adroddiad Amgylcheddol Cyn-adeiladu
PCSR	Adroddiad Diogelwch Cyn-adeiladu
PSA	Asesiad Diogelwch Tebygol
PSR	Adroddiad Diogelwch Rhagarweiniol
RGP	Arferion Da Perthnasol
SAP	Egwyddor(ion) Asesu Diogelwch (HSE)
SFAIRP	Cyn belled â'i bod yn rhesymol bosibl
SSC	Systemau, Strwythur a Chydrannau
TAG	Canllaw Asesiad Technegol (ONR)

TABL CYNNWYS

1 CAIS AM GANIATÂD....6
2 CEFNDIR....6
3 GWAITH ASESU AC ARCHWILIO A GYFLAWNWYD GAN YR ONR WRTH YSTYRIED Y CAIS HWN....6
4 MATERION YN CODI O WAITH YR ONR....7
5 CASGLIADAU....8
6 ARGYMHELLION....8
7 CYFEIRIADAU....9

1 CAIS AM GANIATÂD

1. Mae Magnox Ltd (Y Trwyddedai) wedi gofyn am 'Gymeradwyaeth' yr ONR dan Amod Trwyddedu 11(3) ar gyfer ei newidiadau arfaethedig i gynllun argyfwng safle Trawsfynydd [1]. Dogfennir y newidiadau arfaethedig i'r cynllun argyfwng yng nghyhoeddiad drafft y cynllun argyfwng [2].

2. Ar hyn o bryd mae gan y trwyddedai gynllun argyfwng [3], sydd ar rifyn 11. Mae Amod Trwyddedu (LC) 11(3) yn gofyn i'r trwyddedai (yn yr achos hwn, Magnox Ltd) sicrhau na wneir unrhyw addasiad na diwygiad i gynllun argyfwng a gymeradwywyd oni bai fod y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) yn cymeradwyo'r addasiad neu ddiwygiad. Mae'r adroddiad hwn yn sail i gymeradwyaeth yr ONR o drefniadau newydd arfaethedig y trwyddedai.

3. Mae'r newidiadau arfaethedig i'r cynllun wedi bod trwy drefn briodol fewnol y trwyddedai ac mae wedi ei ystyried gan ei bwyllgor diogelwch niwclear priodol [4].

2 CEFNDIR

4. Fel sy'n ofynnol gan REPPIR (Rheoliad 5(1) a 6(4)) [5], darparodd y trwyddedai Adroddiad Asesiad (RoA) / Nodi Peryglon a Gwerthuso Risg (HIRE) diwygiedig i'r ONR [6]. Mae'r RoA / HIRE a gwybodaeth ategol a ddarparwyd gan y trwyddedai [7], [8] a [9] yn casglu nad yw'n rhesymol ragweladwy y gallai aelod o'r cyhoedd gael ei amlygu i ddos sydd dros 5 mSv o ganlyniad i argyfwng ymbelydredd.

5. Yn dilyn asesiad [10] a [11], cytunodd yr ONR nad yw argyfwng ymbelydredd yn rhesymol ragweladwy yn Nhrawsfynydd [12]. Dywed REPPIR (Rheoliad 7) [5] os nad yw argyfwng ymbelydredd yn rhesymol ragweladwy, yna nid oes gofyniad ar gyfer cynllun argyfwng oddi ar y safle.

6. Hysbysodd ONR Gyngor Gwynedd nad yw bellach yn ofyniad i'r Cyngor baratoi, adolygu a phrofi cynllun argyfwng oddi ar y safle sy'n ystyried argyfwng ymbelydredd posibl ar gyfer Trawsfynydd dan REPPIR (Rheoliadau 9(1) and 10(1)) [13].

7. Fel sy'n ofynnol dan ei drefniadau ei hun, mae'r Trwyddedai wedi ysgrifennu at yr ONR i ofyn am gymeradwyaeth i'w newidiadau arfaethedig i'r cynllun argyfwng ar gyfer Trawsfynydd [1].

3 GWAITH ASESU AC ARCHWILIO A GYFLAWNWYD GAN YR ONR WRTH YSTYRIED Y CAIS HWN

8. Yn fy asesiad o'r cynllun argyfwng arfaethedig, rwyf wedi ystyried y gwahaniaethau rhwng y cynlluniau cyfredol [3] ac arfaethedig [2]. Rydw i wedi cadarnhau bod y cynllun arfaethedig yn cydymffurfio â gofynion canllaw'r ONR [14] a [15]. Rwyf hefyd wedi ystyried perfformiad y trwyddedai yn ei ymarfer argyfwng Lefel 1 mwyaf diweddar.

3.1 NEWIDIADAU I'R CYNLLUN ARGYFWNG

9. Rydw i wedi adolygu cynllun arfaethedig y trwyddedai [2] ac yn fodlon mai'r prif newidiadau i'r cynllun argyfwng yw i ddiddymu'r gofyniad ar gyfer y prosesau, staff ac offer fyddai'n ofynnol i ddelio gydag argyfwng niwclear oddi ar y safle. Roedd yr elfennau a ddiddymwyd yn cynnwys darparu galluedd arolwg oddi ar y safle estynedig, yr angen am system radio sy'n cynnwys yr ardal gyfagos a'r rhyngweithio safle gyda'r Ganolfan Gydlynu Strategol. Mae yna hefyd ofyniad ar gyfer System Monitro Gama Perimedr Argyfwng (EPGMS).

10. Nid yw'r testun yn cyflwyno unrhyw newidiadau, ar wahân i addasiadau arwynebol, i drefniadau cyfredol y trwyddedai ar gyfer digwyddiadau niwclear ar y safle. Nid yw'r gallu i'r trwyddedai alw ar sefydliadau allanol mewn argyfwng wedi newid.

11. Er nad yw'r personél ymateb mewn argyfwng wedi newid, mae eu rolau argyfwng wedi eu haddasu i ganolbwyntio ar argyfyngau ar y safle. Er bod gan y cynllun diwygiedig y diben o ddiogelu'r cyhoedd, rwyf wedi nodi na ddeliwyd â'r gofyniad penodol i'r trwyddedai gadw gallu i ymateb i ddigwyddiadau yn ymwneud â rhyddhad bychan o ddeunydd ymbelydrol o'r safle, trwy gyflawni monitro radiolegol o ardaloedd oddi ar y safle sy'n lleol i'r safle, yn y cynllun argyfwng drafft [16]. Mae'r trwyddedai wedi derbyn yr esgeulustra hwn ac wedi addasu'r geiriad yn y cynllun argyfwng i ddynodi'r gofyniad hwn [17]. Bydd gweithrediad manwl o'r gallu i fonitro oddi ar y safle yn cael ei ddynodi yn y Llawlyfr Argyfwng sy'n isradd i Gynllun Argyfwng Safle Trawsfynydd.

12. Dangosodd archwiliad o weithrediad y cynllun argyfwng bod yna ddiffyg yn y lefel o arbenigedd monitro ffiseg iechyd ar gael ar shifft [17]. Derbyniodd y safle yr hepgoriad hwn ac mae wedi darparu cynllun hyfforddi digonol a fydd yn sicrhau fod personél shifft wedi cael eu hyfforddi ac awdurdodi yn erbyn y safon monitro ffiseg iechyd gofynnol [18].

13. Darparwyd Cynllun Argyfwng Trawsfynydd Rhifyn 12, Diwygiad 2 [1] wedi ei ddiweddaru a'i awdurdodi oedd yn taclo'r mân addasiadau golygyddol eraill i'r cynllun drafft [16] and [17].

3.2 YSTYRIAETHAU ERAILL

14. Arddangosodd y trwyddedai y trefniadau digwyddiad niwclear ar y safle a gynhwysir yn ei gynllun argyfwng cyfredol i foddhad yr ONR yn yr Ymarfer 'Spitfire' Lefel 1 diweddar ar 19 Mai 2015 [19]. Er y nodwyd rhai meysydd i'w gwella, darparodd y safle arddangosiad boddhaol o'i drefniadau argyfwng ar y safle.

15. Gan y bydd yr adrannau o'r trefniadau cyfredol [3] yn ymwneud â digwyddiadau niwclear ar y safle yn cael eu dwyn ymlaen heb eu newid i'r cynllun argyfwng arfaethedig, rwy'n ystyried bod yr ymarfer hwn yn rhoi lefel gymesur o hyder yn y cynllun diwygiedig.

16. Rwyf wedi gwirio cynllun argyfwng arfaethedig y trwyddedai yn erbyn gofynion yr Egwyddor Asesiad Diogelwch (SAP) AM.1 [14] a'r Canllaw Archwiliad Technegol (TIG) 11 [15]. Rwy'n ystyried ei fod yn bodloni gofynion y dogfennau hynny.

17. Felly rwy'n ystyried bod y trefniadau a fynegir yn y cynllun hwnnw i fod yn ddigonol a, gan eu bod yn sail i'r cynllun diwygiedig, mae gen i lefel gymesur o hyder yn y cynllun diwygiedig [1].

3.3 CRYNODEB

18. Ar y cyfan, rwy'n ystyried bod y cynllun argyfwng diwygiedig yn ddogfen addas, ac ni welaf unrhyw reswm i ymatal cydsyniad nac i ofyn am unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn. Mae'n adlewyrchu canllaw'r ONR, ac yn gwneud hynny mewn modd sy'n gwneud ymateb Magnox i ddamwain ac argyfwng yn Nhrawsfynydd yn hawdd i'w ddeall.

4 MATERION YN CODI O WAITH YR ONR

19. Nid oes unrhyw faterion yn codi o'r adroddiad asesiad prosiect hwn.

5 CASGLIADAU

20. Rwy'n fodlon bod y r cynllun argyfwng diwygiedig yn cyflwyno un newid materion yn unig i'r trefniadau presennol, sef diddymu'r gallu i ddelio gydag argyfwng niwclear oddi ar y safle. Gellir cyfiawnhau'r adolygiad i'r cynllun argyfwng gan fod y trwyddedai wedi arddangos i foddhad yr ONR yn flaenorol nad yw argyfwng niwclear bellach yn rhesymol ragweladwy.

21. Arddangosodd y trwyddedai adrannau'r trefniadau presennol yn gysylltiedig â digwyddiadau niwclear oddi ar y safle i'r ONR yn llwyddiannus ym Mai 2015.

22. Rwy'n ystyried y bydd y cynllun argyfwng arfaethedig yn darparu manylion addas a digonol i alluogi'r trwyddedai i ddelio'n ddiogel gydag argyfwng ar y safle os bydd yr angen yn codi.

6 ARGYMHELLION

23. Rwy'n argymell bod y Dirprwy Brif Arolygydd ar gyfer y rhaglen Datgomisiynu, Tanwydd a Gwastraff:

- Yn derbyn y PAR hwn ac yn ardystio cais y trwyddedai am Gymeradwyaeth o Gynllun Argyfwng Safle Trawsfynydd Rhifyn 12 Adolygiad 2, dyddiedig 12 Tachwedd 2015, [1];
- Yn llofnodi'r Offeryn Trwyddedu rhif 527 [20] sy'n Cymeradwyo Cynllun Argyfwng Safle Trawsfynydd, TRWAS/05/43, Rhifyn 12 Adolygiad 2, dyddiedig 22 Hydref 2015 ac yn diddymu Cymeradwyaeth i Cynllun Argyfwng Datgomisiynu Trawsfynydd, Rhifyn 11, dyddiedig Rhagfyr 2005.

7 CYFEIRIADAU

1. TRA 50829R, Cais i Gymeradwyo Addasiad i Gynllun Argyfwng Safle Trawsfynydd dan Amod Trwyddedu 11(3) Atodlen 2 sy'n Atodedig i Rif Trwydded Safle Niwclear Rhif 81, 12 Tachwedd 2015, (Amgáu Cynllun Argyfwng Safle Trawsfynydd, TRAWS/05/43, Rhifyn 12 Diwygiad 2, 22 Hydref 2015). (Cyf TRIM 2015/432933)

2. NP/SC 5277, Newidiadau Arfaethedig i Gynllun Argyfwng Safle Trawsfynydd Ôl REPPIR Rheoliad 9, 20 Mai 2015, (TRAWS/05/43, Cynllun Argyfwng Safle Trawsfynydd Rhifyn 12, 19 Mai 2015). (Cyf TRIM 2015/336414)

3. TRAWS/05/43, Cynllun Argyfwng Safle Datgomisiynu Trawsfynydd Magnox Electric Limited, Rhagfyr 2005, Rhifyn 11. (Cyfeirnod NUC 304/70/11 P2 E20)

4. MXL32269N, Cofnodion Cyfarfod ar y Cyd Pwyllgorau Diogelwch Niwclear Magnox Limited Berkeley, Bradwell, Chapelcross, Dungeness A, Hinkley Point A, Hunterston A, Sizewell A a Thrawsfynydd a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 2 Mehefin 2015 (Cyfeirnod TRIM 2015/230086)

5. L126 Canllaw i'r Rheoliadau Ymbelydriad (Parodrwydd mewn Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001. (http://www.hse.gov.uk/pubns/priced/l126.pdf)

6. Magnox Ltd: M/EF/TRA/REP/0003/13 Rhifyn 2, dyddiedig Medi 2013. Safle Trawsfynydd: Rheoliad REPPIR 6(4) Adroddiad Asesiad Nodi Perygl a Gwerthusiad Risg. (Cyf TRIM 2013/435466)

7. Magnox Ltd: M/EF/TRA/REP/0002/13 Rhifyn 1, dyddiedig Mehefin 2013. Safle Trawsfynydd: Adolygiad i Atodlenni Namau Achos Diogelwch i Gefnogi Adroddiad yr Asesiad HIRE REPPIR. (Cyf TRIM 2013/435619)

8. Llythyr Magnox Ltd: MXL32212/R, dyddiedig 22 Mai 2014. Amcangyfrifon dos cyhoeddus atodol i gefnogi adroddiadau HIRE Magnox Ltd. (Cyf TRIM 2014/204413)

9. E-bost: Magnox Ltd – [redacted], 8 Gorffennaf 2014. Cwestiynau asesiad HIRE Trawsfynydd. (Cyf TRIM 2014/257401)

10. [redacted] ONR-DFW-AR-14-010, Asesiad Astudiaethau Namau Trawsfynydd REPPIR Gwerthusiad Nodi Peryglon a Risg (HIRE) 2013. 5 Rhagfyr 2014. (Cyf TRIM 2014/355445)

11. ONR-COP-PAR-14-004, Penderfyniad ar y Gofyniad ar gyfer Ardaloedd Cynllunio Argyfwng A Gwybodaeth i'r Cyhoedd Oddi ar Safle ar gyfer Safle Niwclear Trwyddedig Trawsfynydd: Rheoliadau Ymbelydriad (Parodrwydd mewn Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001. 25 Mawrth 2015. (Cyf TRIM 2015/51785)

12. Llythyr ONR , REPPIR 2001, Rheoliadau Ymbelydriad (Parodrwydd mewn Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus 2001 (REPPIR), Cynllunio Argyfwng Oddi ar y Safle Trawsfynydd ac Ardaloedd Gwybodaeth Blaenorol, ONR-EPR-15-48, [redacted], 27 Mawrth 2015. (Cyf TRIM 2015/97507)

13. Llythyr ONR , REPPIR 2001, Rheoliadau Ymbelydriad (Parodrwydd mewn Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus 2001 (REPPIR), Cynllunio Argyfwng Oddi ar y Safle Trawsfynydd ac Ardaloedd Gwybodaeth Blaenorol, ONR-EPR-15-49, [redacted], 27 Mawrth 2015. (Cyf TRIM 2015/97514)

14. Egwyddorion Asesu Diogelwch ar gyfer Cyfleusterau Niwclear. Rhifyn 2014 Adolygiad 0. Tachwedd 2014 (http://www.onr.org.uk/saps/saps2014.pdf)

15. NS-INSP-GD-011 Diwygiad 3 LC 11 – Trefniadau Argyfwng. Ionawr 2015 (http://www.onr.org.uk/operational/tech_insp_guides/index.htm)

16. Amod Trwyddedu Trawsfynydd 11 Cynllun Argyfwng – Rhifyn Drafft 12 Pwyntiau Eglurhad – 9 Medi 2015. (Cyf Trim 2015/336702).

17. ONR-DFW-CR-15-183, Adroddiad Cyswllt, Cymeradwyaeth o LC 11 Cynllun Argyfwng a Chyfarfodydd Eraill, 29 Medi 2015. (Cyf TRIM 2015/377981)

18. E-bost, Trawsfynydd - Rhaglen Hyfforddiant Ffiseg Iechyd Shifft - LC 11 Cymeradwyaeth Cynllun Argyfwng - 3 Rhagfyr 2015, (Cyfeirnod TRIM 2015/459138)

19. ONR-DFW-IR-15-020, Trawsfynydd – Datgomisiynu Safle Magnox - Lefel 1 Ymarfer 'Spitfire', 18 i 19 Mai 2015. (Cyf TRIM 2015/172826)

20. Safle Trawsfynydd – Offeryn Trwyddedu – LI527 – Cymeradwyo Cynllun Argyfwng Safle Trawsfynydd, TRAWS/05/43, Rhifyn 12 Diwygiad 2. (Cyf Trim 2015/434218)